


# Gwobr Hyfforddwr

## Manyleb Uned a Chynnwys y Cwrs

**Rhagarweiniad**

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys manylion ynghylch meini prawf asesu Gwobr Hyfforddwr Corff Dyfarnu Canŵio Prydain Lefel 3 ynghyd â meysydd llafur techneg a gwybodaeth.

Mae'r ddogfen hon yn ddogfen fewnol a ddefnyddiwyd i hysbysu'r canlynol:

- Canllaw'r Cwrs
- Pecyn Diwrnod Asesu
- Canllawiau Asesu
- Nodiadau i Diwtoriaid ac Aseswyr
- Rhaglen a Chynlluniau Gwersi Enghreifftiol
- Pecynnau e-ddysgu ategol

## Ynglŷn â'r Cymhwyster

| | |
|---|---|
| Teitl y Cymhwyster: | Gwobr Hyfforddwr Lefel 3 CDCP (BCAB) |
| QAN: | 603/7222/9 |
| Lefel: | 3 |
| Cyfanswm Amser y Cymhwyster: | 34 awr |
| Oriau Dysgu dan Arweiniad: (GLH): | 24 awr |
| Dyddiad cychwyn gweithredol: | 31 Mawrth 2021 |
| Maes Pwnc y Sector: | 08.1 Chwaraeon a Hamdden |
| Dyddiad Adolygu: | 31ain Mawrth 2029 |

Mae Gwobr Hyfforddwr CDCP (BCAB) Lefel 3 gymhwyster hyfforddi pwynt mynediad ac mae'n cynnig llwybrau disgyblaeth penodol ar draws pob disgyblaeth ac amgylchedd.

Mae dysgwyr sy'n llwyddiannus wrth asesu ac ennill cymhwyster Gwobr Hyfforddwr, wedi dangos cymhwysedd galwedigaethol ac yn gallu gweithredu'n annibynnol fel hyfforddwr chwaraeon padlo cymwys.

Mae Gwobr Hyfforddwr CDCP (BCAB) Lefel 3 yn caniatáu ar gyfer twf personol ac ymgysylltu, ac yn paratoi dysgwyr i ddatblygu eu gwybodaeth ymhellach drwy symud ymlaen i ddyfarniad Hyfforddwr Perfformiad Lefel 4 CDCP (BCAB )os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae'r Hyfforddwr CDCP (BCAB) Lefel 3 yn caniatáu i'r dysgwr weithredu'n annibynnol mewn lleoliad cyflogedig o fewn canolfan gweithgareddau awyr agored neu hunangyflogedig.

## Cynnwys


Rhagarweiniad ........ 1

Ynglŷn â'r Cymhwyster ........ 1

Cynnwys........ Error! Bookmark not defined.

Rhan A: Ffiniau Amgylcheddol ........ 4

Ystod Amgylcheddol........ 4

Maes Llafur Technegol a Thactegol ........ 4

Grwpiau Poblogaeth Cyfranogwyr ........ 5

Rhan B: Meini Prawf Asesu ........ 6

1. Rolau a Chyfrifoldebau - Gall yr Hyfforddwr: ........ 6
2. Cynllunio Sesiynau - Gall yr Hyfforddwr:........ 6
3. Cyflwyno Sesiynau - Gall yr Hyfforddwr: ........ 6
4. Datblygu Cyflawniad - Gall yr Hyfforddwr: ........ 6
5. Adolygu a Hunan fyfyrio - Gall yr hyfforddwr: ........ 7
6. Sgiliau personol, diogelwch ac achub – Gall yr hyfforddwr: ........ 7

Rhan C: Gwybodaeth a Dealltwriaeth Sylfaenol ........ 7

Rolau a Chyfrifoldebau – Mae'r Hyfforddwr: ........ 7

Hyfforddi Cynhwysol - Mae'r Hyfforddwr: ........ 8

Anghenion Personol a Chymdeithasol - Mae'r Hyfforddwr: ........ 8

Cyfnodau Datblygu - Mae'r hyfforddwr: ........ 9

Corfforol - Mae'r hyfforddwr: ........ 9

Sgiliau Meddwl - Mae'r hyfforddwr: ........ 9

Cynllunio Sesiynau - Mae'r hyfforddwr: ........ 9

Cyflwyno Sesiynau - Mae'r hyfforddwr: ........ 10

Adolygu arferion hyfforddi – Mae'r hyfforddwr: ........ 11

Datblygiad personol - Mae'r hyfforddwr: ........ 12

## Rhan A: Ffiniau Amgylcheddol

Mae’r adran hon yn amlinellu’r themâu chwaraeon penodol y disgwylir i’r hyfforddwr allu eu hyfforddi, mae hefyd yn diffinio’r grwpiau poblogaeth a’r amgylcheddau y gellir asesu’r dysgwr yn eu hyfforddi, ac os ydyw’n llwyddiannus, y grwpiau poblogaeth a’r amgylcheddau y caiff ei ystyried yn gymwys i’w hyfforddi.

### Ystod Amgylcheddol

Mae pob cymhwyster wedi’i fframio gan amodau amgylcheddol y gall yr hyfforddwr weithredu ynddynt. Mae’r rhain yn cael eu nodi yng Nghanllaw Cwrs Gwobr Hyfforddi (Atodiad 2) a’u diffinio ymhellach gan y Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn ‘Diffiniadau Amgylcheddol a Chanllawiau Lleoli ar gyfer Cyfarwyddwyr, Hyfforddwyr ac Arweinwyr’. Disgwylir i hyfforddwyr allu weithredu yn ystod lawn y gwahanol amodau o fewn y diffiniadau hyn. Caiff ystod o amgylcheddau priodol eu samplu yn ystod yr asesiad.

### Maes Llafur Technegol a Thactegol

**Dyfarniadau Dŵr Cysgodol:** Mae Hyfforddwyr Dŵr Cysgodol Canŵ a Chaiac yn medru hyfforddi’r sgiliau generig sydd eu hangen ar gyfer padlo ar ddŵr gwastad er mwyn creu sylfeini cadarn ar gyfer datblygu sgiliau yn y ddisgyblaeth benodol yn y dyfodol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phadlwyr mewn unrhyw ganŵ a/neu gaiac mewn amrywiaeth o amgylcheddau dŵr cysgodol.

**Dyfarniadau Disgyblaethau Penodol:** Mae hyfforddwyr â dyfarniad disgyblaeth benodol yn medru hyfforddi’r sgiliau sylfaenol sy’n benodol i’r ddisgyblaeth a helpu pobl i ddatblygu eu sgiliau mewn amgylcheddau diffiniedig, gan ystyried elfennau technegol, tactegol, corfforol a seicolegol o berfformiad. Byddant hefyd yn medru hyfforddi sgiliau sylfaenol disgyblaeth benodol a rhagarweiniol i ddŵr gwastad.

Dylai eu cronfa o sgiliau gynnwys y sgiliau hyfforddi sydd eu hangen i ddatblygu technegau a thactegau sy’n benodol i’r ddisgyblaeth a’r amgylchedd sy’n ymwneud â’r canlynol:

- Sylfeini (Osgo Gweithredol, Cysylltedd, Trosi Pŵer, Teimlad)
- Lansio a glanio

- Padlo am ymlaen, llywio, troi a symud
- adfer ar ôl colli cydbwysedd, adfer ar ôl troi i mewn i'r dŵr, diogelwch a sgiliau achub.

**Grwpiau Poblogaeth Cyfranogwyr**

Bydd yr ymgeisydd yn dewis y grŵp/grwpiau cyfranogi (oed, gallu, cwch/dosbarth) y byddant yn eu hyfforddi. Mae hyfforddiant ychwanegol ar gael (Modiwlau Sylfaenol a Chanolraddol Corff Dyfarnu Canŵio Prydain) er mwyn ategu gwybodaeth a dealltwriaeth yr hyfforddwyr i gefnogi'r rheiny sy'n gweithio gyda rhai grwpiau arbenigol. Bydd cyrsiau hyfforddi Gwobr Hyfforddi yn edrych ar rai o'r amrywiaethau nodweddiadol o gyfranogwyr/amgylcheddau sy'n berthnasol i'r hyfforddwyr ar y cwrs. Gall ystod y cyfranogwyr sy'n berthnasol i'r hyfforddwr gynnwys:

- Padlwyr/athletwyr ar wahanol gyfnodau o ddysgu NEU lefelau cyflawniad
- Padlwyr/athletwyr sydd â gwahanol lefelau o gymhellion/dyheadau
- Padlwyr o wahanol fathau o gychod (e.e. unigol, tandem, criw)
- Gwahanol ddosbarthiadau cystadleuol (e.e. K1, C1, C2, K4, dynion, menywod, para, iau, hŷn)
- Grwpiau poblogaeth penodol (e.e. dynion, menywod, gallu/anabledd, grwpiau oedran).

CopyrightBCAB/2017BCABLevel3CoachAwardUnitSpecAndCourseContentWelshV1-2Nov24

**Rhan B: Meini Prawf Asesu**

Asesir drwy arsylwi gweithgaredd hyfforddi ymarferol 90 munud a chwestiynu.

**1. Rolau a Chyfrifoldebau - Gall yr Hyfforddwr:**

1.1 Dehongli rôl yr hyfforddwr yn cyflwyno sesiynau dilynol

1.2 Cyflawni ei gyfrifoldebau hyfforddi

1.3 Sefydlu amgylchedd hyfforddi diogel

1.4 Sicrhau bod yr arfer hyfforddi yn gynhwysol

**2. Cynllunio Sesiynau - Gall yr Hyfforddwr:**

2.1 Gynllunio sesiynau dilynol

2.2 Gynllunio gweithgareddau i gyflawni amcanion y sesiynau

**3. Cyflwyno Sesiynau - Gall yr Hyfforddwr:**

3.1 Baratoi'r amgylchedd hyfforddi

3.2 Sefydlu amgylchedd hyfforddi diogel

3.3 Paratoi'r cyfranogwyr ar gyfer y sesiwn/sesiynau hyfforddi

3.4 Cyflwyno gweithgareddau hyfforddi dilynol

3.5 Dewis strategaethau hyfforddi ac arwain sy'n canolbwyntio ar y cyfranogwyr

3.6 Datblygu agweddau technegol a thactegol y chwaraeon

3.7 Darparu esboniadau ac arddangosiadau sy'n gywir yn dechnegol ac yn dactegol

3.8 Dadansoddi a darparu adborth ar gyflawniad y cyfranogwyr

3.9 Cynnal diogelwch y cyfranogwyr

3.10 Cloi'r sesiwn

**4. Datblygu Cyflawniad - Gall yr Hyfforddwr:**

4.1 Ddefnyddio gwybodaeth am lefel datblygu'r cyfranogwyr i ddatblygu cyflawniad

4.2 Ddefnyddio gwybodaeth am egwyddorion datblygu sgiliau i ddatblygu cyflawniad

4.3 Ddefnyddio gwybodaeth am elfennau o ffitrwydd corfforol i ddatblygu cyflawniad

4.4 Ddefnyddio gwybodaeth am sgiliau meddyliol i ddatblygu cyflawniad

**5. Adolygu a Hunan fyfyrio - Gall yr hyfforddwr:**

5.1 Adolygu cyflawniad y cyfranogwyr

5.2 Dadansoddi ei arferion hyfforddi ei hun

5.3 Cymhwyso'r adolygiadau o sesiynau hyfforddi wrth gynllunio sesiynau i ddod

5.4 Adolygu effeithiolrwydd y sesiynau hyfforddi

**6. Sgiliau personol, diogelwch ac achub – Gall yr hyfforddwr:**

6.1 Ddangos sgiliau personol effeithiol ac effeithlon (ddim yn berthnasol ar gyfer cymwysterau Dull Rhydd, Polo, Rasio, Slalom na Rasio Dŵr Gwyllt)

6.2 Ymdopi â phroblemau, damweiniau, anafiadau ac afiechydon gan ddilyn y gweithdrefnau cywir

6.3 Dangos cymhwysedd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd achub penodol

6.4 Gweithredu gweithdrefnau brys pan fo angen.

**Rhan C: Gwybodaeth a Dealltwriaeth Sylfaenol**

Dylai ystod eang o wybodaeth a dealltwriaeth fod yn sail i arferion hyfforddi.

**Rolau a Chyfrifoldebau – Mae'r Hyfforddwr:**

1.1 Yn deall rôl yr Hyfforddwr Chwaraeon Padlo hollol annibynnol a'i gyfrifoldebau;

1.2 Yn deall ei gyfrifoldebau wrth weithio gydag eraill, megis Arweinwyr, Cynorthwywyr Hyfforddi;

1.3 Yn gwybod sut i hyrwyddo codau ymddygiad a gosod a chytuno ar reolau sylfaenol;

1.4 Yn gwybod sut i osod esiampl dda;

1.5 Yn deall rheolau a rheoliadau perthnasol y chwaraeon, gweithgaredd, cyfleuster ac ati.;

1.6 Yn gwybod sut i hyrwyddo rôl y swyddogion yn gadarnhaol;

1.7 Yn deall yr hyn a ystyrir yn berthnasau derbyniol fel Hyfforddwr;

1.8 Yn gwybod sut i annog a gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol;

1.9 Yn deall sut i ymateb i ymddygiad gwahaniaethol

1.10 Yn gwybod sut i ymddwyn yn deg, yn gyson, yn gyfiawn ac yn foesegol;

1.11 Yn deall sut i reoli adnoddau a gwybodaeth ar gyfer, ac am, cyfranogwyr;

1.12 Yn gwybod sut i nodi gofynion a chymhellion cyfranogwyr;

1.13 Yn deall dyletswydd gofal, diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed, a chynnal cyfrinachedd;

1.14 Yn deall sut i ddiwallu anghenion mathau perthnasol o gyfranogwyr (e.e. grwpiau oedran, lefelau gallu);

1.15 Yn deall sut i helpu i fodloni anghenion cyfranogwyr â nodweddion a ddiogelir;

1.16 Yn gwybod sut i reoli iechyd a diogelwch;

1.17 Yn gwybod sut i gasglu gwybodaeth gefndir am ei gyfranogwyr.

**Hyfforddi Cynhwysol - Mae'r Hyfforddwr:**

2.1 Yn gwybod sut i sicrhau bod pawb yn cael eu cynnwys yn y gweithgareddau hyfforddi;

2.2 Yn gwybod sut i gael gwybodaeth am sut i hyfforddi cyfranogwyr sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir;

2.3 Yn gwybod sut i deilwra'r cyfathrebu i fodloni anghenion cyfranogwyr penodol (e.e. oed/gallu;)

2.4 Yn deall sut i gydnabod bod gwahanol gyfranogwyr yn dysgu mewn gwahanol ffyrdd;

2.5 Yn gwybod sut i nodi anghenion penodol cyfranogwyr mewn perthynas ag oedran, gallu a sgiliau.

**Anghenion Personol a Chymdeithasol - Mae'r Hyfforddwr:**

3.1 Yn deall rôl yr hyfforddwr wrth hyrwyddo bywyd iach, gan gynnwys ymwybyddiaeth o faeth, hydradu a chyffuriau cymdeithasol a chyffuriau gwella cyflawniad;

3.2 Yn deall egwyddorion rheoli pwysau mewn perthynas â'r chwaraeon;

3.3 Yn gwybod sut i ddarparu ar gyfer anghenion unigol o fewn y grŵp hyfforddi;

3.4 Yn gwybod sut i ymdopi â damweiniau, argyfyngau a digwyddiadau, lleihau risg a gweithdrefnau cofnodi;

3.5 Yn deall y gwahaniaeth yn y modd y mae oedolion a phlant yn dysgu.

**Cyfnodau Datblygu - Mae'r hyfforddwr:**

4.1 Yn deall sut y mae oedran a gallu yn effeithio ar ddysgu a'r amgylchedd hyfforddi;

4.2 Yn deall sut y gall hyfforddiant a pherfformiad gael eu dylanwadu gan oed a gallu;

4.3 yn deall sut y mae galluoedd corfforol a meddyliol cyfranogwr/cyfranogwyr yn dylanwadu ar gynnwys a strwythur y sesiwn.

**Corfforol - Mae'r hyfforddwr:**

5.1 Yn deall yr elfennau perthnasol o ffitrwydd corfforol;

5.2 Yn deall y gallu corfforol sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd;

5.3 Yn deall gofynion anatomegol a biomecanyddol sylfaenol y gweithgaredd;

5.4 Yn gwybod sut i osgoi anafiadau a rhoi cymorth i gyfranogwr sy'n dychwelyd o anaf.

**Sgiliau Meddwl - Mae'r hyfforddwr:**

6.1 Yn deall y prif ddulliau ar gyfer gwella sgiliau meddwl cyfranogwr/cyfranogwyr (y gallu i gysylltu a gweithio gydag eraill, teimlad o berthyn, hyder, rheolaeth emosiynol, cymhelliant, canolbwyntio, creu delweddau);

6.2 Yn deall sut y gall gwahanol oedran, profiad a gallu ddylanwadu ar sgiliau meddwl cyfranogwyr;

6.3 Yn gwybod sut i ddefnyddio gwybodaeth am sgiliau meddwl i ddatblygu perfformiad cyfranogwyr.

**Cynllunio Sesiynau - Mae'r hyfforddwr:**

7.1 Yn deall rôl cynllunio sesiynau o fewn y cylchred 'cynllunio-gwneud-adolygu-cloi';

7.2 Yn deall sut i gynllunio sesiynau i gefnogi amcanion eang rhaglen hyfforddi ac anghenion y cyfranogwr;

7.3 Yn deall egwyddorion cynllunio sesiynau dilynol;

7.4 Yn gwybod sut i ddatblygu cynlluniau sesiwn unigol sy'n gysylltiedig â nodau, a hynny'n gyson ag amcanion hirdymor;

7.5 Yn gwybod sut i gynllunio sesiynau ag amseru realistig, dilyniannau, dwysedd a hyd y gweithgareddau;

7.6 Yn deall sut i ddewis cynnwys addas ar gyfer y sesiwn/sesiynau hyfforddi:
- pa fath o wybodaeth sydd angen ei chasglu/dadansoddi er mwyn llywio cynllun y sesiwn
- gofynion technegol, tactegol, corfforol a seicolegol y gweithgaredd
- sut i amlinellu proffil technegol, tactegol, corfforol a seicolegol y cyfranogwr;

7.7 Yn deall sut i ddewis lleoliad addas ar gyfer y sesiwn/sesiynau hyfforddi;

7.8 Yn gwybod sut i gynllunio amgylchedd dysgu hwyl ac effeithiol sy'n bodloni anghenion y cyfranogwyr;

7.9 Yn deall sut i fabwysiadu dull hyblyg ac addasol i fodloni anghenion a diogelwch y cyfranogwyr, gan gynnwys y cynlluniau wrth gefn a sut i gynllunio ar gyfer argyfyngau;

7.10 Yn deall sut i gynllunio ar gyfer diogelwch;

7.11 Yn gwybod sut i baratoi cyfranogwyr ar gyfer cystadlaethau/y gweithgaredd.

**Cyflwyno Sesiynau - Mae'r hyfforddwr:**

8.1 Yn deall sut i nodi nodau ac amcanion a chytuno â chyfranogwyr ar nodau;

8.2 Yn deall egwyddorion arferion da ar gyfer dechrau sesiynau hyfforddi a'u dirwyn i ben;

8.3 Yn deall sut i baratoi cyfranogwyr ar gyfer gweithgaredd (cynhesu'n feddyliol ac yn gorfforol);

8.4 Yn deall sut i strwythuro sesiynau i wneud y gorau o ddysgu, cael hwyl a diogelwch;

8.5 Yn deall dulliau rheoli, arwain a threfnu sesiwn (o ran pobl ac adnoddau);

8.6 Yn deall sut i reoli ymddygiad;

8.7 Yn gwybod sut i nodi a defnyddio rheolau a chodau perthnasol sy'n benodol i'r chwaraeon;

8.8 Yn gwybod sut i roi gwybodaeth i gyfranogwyr ar ôl y sesiynau hyfforddi;

8.9 Yn deall dulliau a strategaethau cyfathrebu (gan gynnwys gwrando, cwestiynu, esboniadau, arddangosiadau);

8.10 Yn gwybod sut i annog ac ysgogi cyfranogwyr;

8.11 Yn gwybod sut i ddatblygu cyfranogwyr yn gymdeithasol, magu eu hyder a'u hunan-barch;

8.12 Yn gwybod sut i gefnogi a deall cymhellion cyfranogwyr ar gyfer cymryd rhan yn y gweithgaredd;

8.13 Yn deall sut i adeiladu perthynas dda â'r cyfranogwyr, a rhyngddynt hefyd;

8.14 Yn gwybod sut i gefnogi'r cyfranogwr/cyfranogwyr i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain;

8.15 Yn gwybod sut i ddefnyddio a chynnwys ystod o ddulliau hyfforddi;

8.16 Yn gwybod sut i reoli gwahaniaethu;

8.17 Yn deall egwyddorion dysgu (gan gynnwys rôl adborth);

8.18 Yn gwybod sut i ymdrin â, nodi, ac ymateb i anghenion (newidiol) unigol cyfranogwyr;

8.19 Yn gwybod sut i sicrhau bod y gweithgaredd hyfforddi yn gynhwysol;

8.20 Yn deall gofynion technegol, tactegol, corfforol a seicolegol y gweithgaredd;

8.21 Yn gwybod sut i amlinellu proffil technegol, tactegol, corfforol a seicolegol y cyfranogwr;

8.22 Yn deall egwyddorion datblygu sgiliau a thechnegau ar gyfer datblygu sgiliau;

8.23 Yn gwybod sut i arsylwi cyflawniad cyfranogwyr;

8.24 Yn deall egwyddorion dadansoddi cyflawniad cyfranogwyr;

8.25 Yn deall sut i fesur datblygiad cyfranogwyr.

**Adolygu arferion hyfforddi – Mae'r hyfforddwr:**

9.1 Yn deall sut i fesur ansawdd y profiad hyfforddi;

9.2 Yn gwybod sut i werthuso a monitro datblygiad a dysgu'r cyfranogwr/cyfranogwyr;

9.3 Yn gwybod sut i adolygu a gwerthuso'r sesiwn, gan ddefnyddio safbwyntiau cyfranogwyr ac eraill, a defnyddio hynny i ddylanwadu ar sesiynau'r dyfodol;

9.4 Yn deall sut i gytuno ar ddeilliannau'r adolygiad â chyfranogwyr ac eraill, rhoi cyngor iddynt ar eu hanghenion datblygu ac addasu sesiynau'r dyfodol i adlewyrchu eu hanghenion;

9.6 Yn gwybod sut i ddefnyddio adborth gan eraill.

**Datblygiad personol - Mae'r hyfforddwr:**

10.1 Yn deall egwyddorion hunan fyfyrio;

10.2 Yn gwybod sut i adnabod anghenion datblygu personol;

10.3 Yn gwybod sut i gael adborth dilys ar berfformiad ei hun gan gyfranogwyr ac eraill;

10.4 Yn deall bod angen iddo gymryd cyfrifoldeb dros ddatblygiad ei hun;

10.5 Yn gwybod sut i gyrchu datblygiad personol parhaus (CPD), datblygu cynllun gweithredu personol a chreu cyfleoedd mentora;

10.6 Yn gwybod sut i gymryd rhan mewn adolygiad parhaus;

10.7 Yn deall dilyniant gyrfaol yn y chwaraeon a rôl eraill, lle bo hynny'n berthnasol.